

## Glan-yr-afon: Croesfan Sebra Wyndham Crescent Llwybrau Diogel yn y Gymuned

### Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus diweddar ar welliannau i ddiogelwch ar y ffyrdd a gynnigir ar gyfer Wyndham Crescent, rydym wedi ymchwilio i gais ar gyfer croesfan sebra ychwanegol ar ben deheuol Wyndham Crescent ger Heol Orllewinol y Bont-faen.

Mae arolygon wedi dangos bod y galw gan gerddwyr a llif traffig yn sylweddol ac mae cyfiawnhad dros gael croesfan sebra yn y lleoliad hwn. Bydd gweithredu'r project hwn yn gwella diogelwch ar y ffyrdd yn arbennig ar gyfer cerddwyr.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan y grant Llwybrau Diogel yn y Gymuned gan Lywodraeth Cymru.

### Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Parthau 20 mya. Wrth deithio 20mya y pellter stopio i gar yw 12 metr (40 troedfedd), o gymharu â 24 metr (75 troedfedd) wrth deithio 30 mya. Mewn damwain bydd perygl o 1 mewn 20 yn unig y bydd car yn lladd cerddwr, o gymharu â pherygl o 1 mewn 2 wrth deithio 30 mya. Mae'r ffactorau hyn yn cyfuno i leihau'r perygl i holl ddefnyddwyr y ffordd. Yn achos cerddwyr mae defnyddio croesfan ac, os oes angen, cerdded ar y ffordd, yn llawer mwy diogel a derbyniol. Mae'n ofyniad statudol bod parthau 20mya yn cynnwys **nodweddion arafu traffig** gyda dim mwy na 100 metr rhyngddynt, a rhaid i'r rhain fod wedi eu dylunio i sicrhau bod cerbydau yn teithio ar gyflymder cyfartalog o 20 mya.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolig o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros **groesfan pâl**. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â **rhwystrau ymwthiol** sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Croesfan Sebra Ymwthiol. **Croesfan sebra** ag arni **ddarnau ymwthiol** er mwyn culhau'r ffordd i'r lled lleiaf ar gyfer traffig dwy ffordd. Mae hyn yn gwella gwelededd i ac o gerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan. Gall bwrdd arafu fod yn rhan o'r cynllun hefyd.


Rhwystrau Ymwthiol. Darn o lwybr troed sydd wedi ei ledu. Gellir eu defnyddio mewn sawl gwahanol sefyllfa, e.e. wrth ail-lunio cyffyrdd, diffinio ardaloedd parcio neu leihau'r pellter sydd i gerddwyr groesi'r ffordd. Gallant wella gwelededd i ac o gerddwyr neu yrwyrr sy'n aros wrth gyffordd.

## Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital  
Prifddinas Falch



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **03/11/2017**.



**The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **03/11/2017**.